Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Cymerau**
**Ffordd Mela**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 5AR**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/03/2016**

## Cyd-destun

Mae ysgol gynradd Cymerau yn gwasanaethu tref Pwllheli a’r cyffiniau, gan gynnwys Penrhos ac Efailnewydd yng Ngwynedd.  Mae’n darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-11 oed.

Mae 299 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol ynghyd â 45 o blant meithrin rhan amser.  Mae’r niferoedd wedi codi ychydig ers yr arolygiad diwethaf.

Mae’r disgyblion yn dechrau’r ysgol yn amser llawn ar ddechrau’r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Cymraeg yw’r brif iaith a siaredir yn y cartref gan bron dri chwarter o’r disgyblion.  Ar hyn o bryd, mae tua deg o ddisgyblion lle ystyrir bod Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.  Mae 17.8% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol.  Ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig a rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol sydd yn yr ysgol.

Mae ychydig dros 29% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy’n uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, ac ychydig iawn ohonynt sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae uned sirol addysg arbennig ar safle’r ysgol ar gyfer disgyblion ag anawsterau iaith am ddau ddiwrnod yr wythnos ac mae uned lloeren ysgol arbennig ar y safle am dri diwrnod yr wythnos.

Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn 12 dosbarth cofrestru, gan gynnwys dau ddosbarth oed meithrin.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2011.  Mae’r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2014.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cymerau yn 2015-2016 yw £3,564.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981.  Mae Ysgol Cymerau yn y 79fed safle o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda am y rhesymau canlynol:

- Mae bron pob disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Mae medrau rhifedd a llythrennedd Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n gadarn a gallant eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm
- Mae'r disgyblion yn gyffredinol yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus ac yn cydweithio'n hwylus gyda'i gilydd
- Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda
- Mae'r ysgol wedi cynllunio a phlethu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol i weithgareddau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm
- Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy'n seiliedig ar ddiddordebau a syniadau'r disgyblion er mwyn ennyn diddordeb y rhan fwyaf ohonynt
- Mae'r profiadau dysgu yn ddiddorol ac yn ysgogi rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus
- Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda am y rhesymau canlynol:

- Mae gan y pennaeth ymwybyddiaeth eang o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, a thrwy ei arweiniad cadarn, mae'n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol
- Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn sicrhau bod systemau cadarn yn eu lle i adnabod anghenion pob disgybl
- Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn monitro cynnydd gweithdrefnau a roddwyd ar waith yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol yn effeithiol
- Mae prosesau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac wedi eu sefydlu'n gadarn ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol
- Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Cryfhau rôl y llywodraethwyr i weithredu'n strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol disgyblion wrth ddechrau yn yr ysgol yn amrywio. Fodd bynnag, mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae eu medrau dysgu yn datblygu'n gynyddol gadarn yn unol â'u hoed a'u gallu. Gallant adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol a datrys problemau'n effeithiol trwy ddefnyddio eu medrau meddwl a chydweithio'n hwylus. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol llwyddiannus.

Mae medrau llafar Cymraeg bron pob disgybl yn datblygu'n gadarn drwy'r ysgol. Gallant sgwrsio'n naturiol a rhugl am amrywiaeth o bynciau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o oed cynnar. Mae'r lleiafrif o ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg adref yn caffael y Gymraeg yn gyflym ac yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf eirfa bynciol a chyffredinol eang. Maent yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau, mynegi barn yn glir ac yn ymateb yn estynedig i gwestiynau.

Mae medrau darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Mae llawer ohonynt yn dangos diddordeb mewn llyfrau, ac yn gallu trafod eu cynnwys yn effeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio technegau amrywiol yn llwyddiannus i ddarllen geiriau anghyfarwydd neu anodd. Maent yn defnyddio'u huwch fedrau darllen yn hyderus i'w galluogi i ymateb i weithgareddau amrywiol y dosbarth. Yn gynyddol trwy gyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, gall y rhan fwyaf ddod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i'w gwaith mewn llyfrau a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae medrau ysgrifennu Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol ar draws y meysydd dysgu. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn gallu ysgrifennu darnau estynedig da mewn ystod o ffurfiau, wrth ymateb i weithgarwch ar draws y meysydd dysgu. Yn gyffredinol, gallant sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir, ac atalnodi'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac mae'r goreuon yn cyrraedd safonau uchel. Mae llawer yn ysgrifennu'n gynyddol effeithiol ac estynedig mewn amrywiaeth eang o ffurfiau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae mwyafrif y disgyblion ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 yn defnyddio idiomau a chymariaethau yn llwyddiannus iawn wrth ysgrifennu darnau creadigol.

Mae safonau llafar a darllen Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn hyderus iawn wrth ddarllen yn Saesneg. Mae safon gwaith ysgrifenedig y mwyafrif o ddisgyblion yn dangos cynnydd priodol wrth fynd drwy'r cyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg mewn gwahanol ffurfiau ar draws y cwricwlwm yn ddigon aml.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda, a gallant drin rhifau, unedau mesur, amser, a chasglu a phrosesu data yn effeithiol. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth a'r cysyniadau hyn yn llwyddiannus ac ymarferol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddatrys problemau penodol sy'n berthnasol i'w thema gyfredol.

Yn gyffredinol, mae safonau gwaith disgyblion yn eu llyfrau ac mewn gwersi yn uwch nag y mae'r data perfformiad yn ei awgrymu.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn dangos cynnydd da dros y pedair blynedd ddiwethaf ym mhob un o'r meysydd dysgu a'r pynciau craidd ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae canlyniadau asesiadau athro ar y lefelau disgwyliedig ym mhob maes dysgu ar y cyfan ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, yng nghyfnod allweddol 2, o'u cymharu ag ysgolion tebyg, mae'r mwyafrif o ganlyniadau'r pedwar pwnc craidd ar y lefelau disgwyliedig ymhlith yr 50% is, gyda'r canlyniadau diweddaraf yn gosod pob pwnc ac eithrio mathemateg ymhlith y 50% uchaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch na'r disgwyl yn amrywio o'r 50% is i'r 50% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefelau uwch na'r disgwyl, mae perfformiad Cymraeg yn gyffredinol ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg, tra bod gweddill y pynciau yn gyffredinol ymhlith y 50% is.

Nid oes patrwm clir o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched, ac mae'r ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig neu sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyflawni'n dda.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith, ond dros gyfnod, prin yw'r rhai o'r garfan fechan hon sy'n llwyddo i gyrraedd y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 mewn ychydig o bynciau penodol.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

### Lles: Digonol

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed iach. Mae'r rhan fwyaf yn deall bod cadw'n heini'n bwysig ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hybu i fod yn egnïol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda, ac maent yn dangos parch a chwrteisi at eraill. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae llawer o'r disgyblion yn dangos gofal a chonsyrn mawr am ei gilydd. Mae'r disgyblion hŷn y 'Criw Clên' yn cymryd gofal am y rhai iau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion yn ystod amseroedd egwyl.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi dirywio. O'i gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg, mae wedi syrthio o'r 50% uwch i'r 25% isaf dros y cyfnod hwnnw.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae'r aelodau'n cymryd rôl flaenllaw wrth drefnu gweithgareddau elusennol a gwneud rhai penderfyniadau o fewn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi ailgylchu hen lyfrau i godi arian tuag at brynu adnoddau newydd i gefnogi'r cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn dyfalbarhau ac yn cadw ar dasg am gyfnodau estynedig. Mae'r mwyafrif yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol effeithiol, sy'n defnyddio'u medrau dysgu yn llwyddiannus. Wrth dyfu drwy'r ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol gadarn o safon eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, a sut i fynd ati i'w wella. O oed cynnar, mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu syniadau buddiol at lywio eu dysgu eu hunain, er enghraifft trwy awgrymu themâu i weithio arnynt, neu weithgareddau penodol ar gyfer ardaloedd dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu cynlluniau gwaith addas a manwl sy'n bodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytun ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn y ddau gyfnod allweddol yn cyd-gynllunio gweithgareddau symbylus ar lefel ysgol gyfan yn effeithiol gan ddefnyddio arbenigedd yr holl staff. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad cyson a pharhaus i'r ardaloedd allanol.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ei gynllunio a'i blethu'n lled effeithiol i weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon yn ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd i sicrhau datblygiad a chysondeb ar draws y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn darparu cyfleoedd digon cyson i ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn gynhwysfawr ac yn sicrhau cynnydd da. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a hanes Cymru yn llwyddiannus iawn trwy ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn briodol. Er enghraifft, bu'r ymweliad ag Ynys Enlli yn fodd i hybu adnabyddiaeth y disgyblion o'u hanes a'r ardal leol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ystyrlon i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd trwy ailgylchu yn eang ar draws yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw ailgylchu crysau pêl-droed i'w hanfon i wledydd eraill. Mae'r ysgol yn darparu ystod effeithiol o weithgareddau ysgogol a diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth y disgyblion o fywyd mewn gwledydd ar draws y byd, er enghraifft India, Patagonia a Botswana. Mae'r staff yn sicrhau bod ardal wyllt yr ysgol yn cael ei defnyddio'n effeithiol i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o arddio, plannu a natur wyllt.

Mae gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys teithiau i fannau diddorol, a gweithdai a chyflwyniadau gan ymwelwyr, yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Mae'r disgyblion yn elwa'n dda o weithgareddau fel clybiau chwaraeon ar ôl ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae ethos gweithgar yn bodoli yn yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu effeithiol er mwyn sefydlu perthynas waith dda â'r disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy'n seiliedig ar ddiddordebau a syniadau'r disgyblion er mwyn ennyn diddordeb y rhan fwyaf ohonynt. Mae gan y rhan fwyaf o staff ddisgwyliadau uchel ac mae rhediad llawer o'r gwersi yn fywiog. Mae'r profiadau dysgu yn ddiddorol ac yn ysgogi rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon a'r cymhorthyddion yn cydweithio'n effeithiol ac yn modelu iaith dda iawn. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cyflwyno gweithgareddau'n frwdfrydig. Mae bron pob aelod o'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli dosbarth yn effeithiol.

Yn y mwyafrif o wersi lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n fanwl ac yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn sefydlu a rhannu meini prawf llwyddiant ar gyfer gwaith y dosbarth ac yn eu gwerthuso'n fwriadus gyda'r disgyblion ar ddiwedd y gweithgaredd. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn profiadau sy'n eu herio i wella. Mae'r athrawon a mwyafrif y cymhorthyddion yn holi'r disgyblion yn gelfydd er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw'r profiadau dysgu bob amser yn ymateb yn ddigon llawn i herio ystod gallu'r disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn lled effeithiol ac yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae ansawdd y marcio yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau ar draws yr ysgol yn gadarn, a gan amlaf mae'n dangos yn glir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae'r sylwadau'n rhy arwynebol. O ganlyniad, mae ychydig o'r disgyblion yn ansicr o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol, ac yn arwain yn llwyddiannus at ddatblygu dysgwyr annibynnol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gosod targedau addas iddynt eu hunain gyda chymorth yr athrawon.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol er mwyn adnabod anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn safoni a chymedroli gwaith y disgyblion ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyrhaeddiad.

Mae'r adroddiadau a gyflwynir i'r rhieni yn cynnig gwybodaeth glir am gynnydd eu plant yn ogystal â thargedau ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar lle mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel. Mae’n gwerthfawrogi ac yn dathlu llwyddiannau a chyfraniadau disgyblion yn briodol. Mae’r staff yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol trwy themâu pwrpasol a chyfleoedd rheolaidd i gyd-addoli.

Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo’n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer clybiau allgyrsiol yn eang. Mae ‘Wythnos Chwaraeon’ yr ysgol, cystadleuaeth 'Treiathlon Cymerau' a’r clybiau chwaraeon niferus yn datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion am gadw’n heini yn effeithiol iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol drwy gysylltiadau effeithlon ag asiantaethau arbenigol, er enghraifft gwasanaethau lles, yr heddlu a’r gwasanaethau cymdeithasol. Mae’r gydberthynas hon yn sicrhau cefnogaeth gynnar ac effeithiol pan fo angen. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt destun pryder.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn drylwyr. Mae gweithdrefnau’n sicrhau bod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mae’r ysgol yn cydweithio â nifer o asiantaethau arbenigol er mwyn creu cynlluniau addysg unigol priodol iddynt, sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd gyda’r rhieni. Mae’r trefniadau hyn yn arwain at ymyraethau llwyddiannus a phwrpasol er mwyn cwrdd ag anghenion addysgol a chorfforol y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol er mwyn cynnig cynhaliaeth a chefnogaeth emosiynol ar gyfer disgyblion bregus a’u teuluoedd. Mae’r trefniadau hyn oll yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les y disgyblion hyn ac yn arwain at godi safonau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos croesawgar a gwarchodol yn yr ysgol lle mae staff a disgyblion yn pwysleisio cwrteisi, parch a gofal am ei gilydd. Mae polisïau a gweithdrefnau’r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i’w holl weithgarwch. Mae polisïau a gweithdrefnau ymarferol yn sicrhau bod yr ysgol yn hygyrch i ddisgyblion sydd ag anghenion corfforol. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gofalu’n dda am y disgyblion iau yn ystod amser chwarae a chinio drwy weithredu cynllun ‘Criw Clên’.

Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau cyfredol ar gyfer diwallu anghenion gwersi ar draws y cwricwlwm ac i ddatblygu medrau’r disgyblion, gan gynnwys eu medrau TGCh. Mae ardaloedd mewnol yr adeilad yn ddeniadol ac yn darparu amgylchedd dysgu diddorol i ddisgyblion. Mae arddangosfeydd deniadol yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu ac yn hybu gwaith disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r staff yn gwneud defnydd da o’r adeilad ac o’r ardaloedd allanol. Saif yr ysgol ar ddarn helaeth o dir, sy’n cynnwys ardal wyllt gynhwysfawr, sy’n annog y disgyblion i gadw’n iach a gwerthfawrogi’r amgylchedd a byd natur. Mae’r mwyafrif o athrawon yn gwneud defnydd da o’r ardaloedd allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a datblygu pob disgybl fel unigolion cyflawn. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus. Mae ganddo ymwybyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, a thrwy ei arweiniad cadarn, mae'n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn sicrhau bod systemau cadarn yn eu lle i adnabod anghenion pob disgybl. Maent yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn fanwl ac yn ymateb i dangyflawniad yn briodol trwy sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer gwelliant. Er eu bod wedi rhoi llawer o brosesau ar waith, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith yn llawn ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn monitro cynnydd gweithdrefnau a roddwyd ar waith yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol yn effeithiol iawn.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn gyfredol ac yn nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae strwythur staffio yn caniatáu i'r holl athrawon gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol o waith yr ysgol. Er bod y cydlynwyr pwnc yn cymryd rôl weithredol yng nghynlluniau'r ysgol, nid yw rôl pob un ohonynt wedi datblygu'n llawn hyd yma.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ymsefydlu'n gadarn yng nghynlluniau'r ysgol ac yn arwain y dysgu'n llwyddiannus. Rhoddir sylw dyledus i'r siarter iaith ac mae effaith hyn i'w weld yn glir ar safonau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio'n fedrus ac yn gweithredu'n effeithiol er mwyn ymateb i amddifadedd disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol gan gyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu ac ysgolion tebyg yn wan. Mae hyn yn cyfyngu eu gallu i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad ac i fonitro gweithdrefnau sydd ar waith. O ganlyniad, nid yw eu rôl ym mhrosesau strategol yr ysgol wedi ei ffurfioli na'i datblygu'n llawn. Mae eu rôl yn y broses o lunio adroddiad hunanarfarnu'r ysgol ac wrth osod blaenoriaethau gwelliant yn gyfyng.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac wedi eu sefydlu'n gadarn ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith, arsylwadau gwersi a chywain barn rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau monitro sy'n deillio o'r broses yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir. Mae'r ysgol yn dadansoddi data yn drwyadl ac mae dealltwriaeth arweinwyr yr ysgol o ba mor dda mae grwpiau amrywiol o ddisgyblion yn cyflawni yn gynhwysfawr. Mae'r wybodaeth hon yn gymorth iddynt wrth greu'r cynllun datblygu ysgol a chynllunio camau strategol ar gyfer gwelliant.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn rhoi darlun cywir o'r ysgol ac yn nodi cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwelliant yn glir. Caiff y ddogfen ei gwerthuso'n rheolaidd ac mae gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli adnabyddiaeth dda o'u hysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg.

Mae cyswllt clir rhwng deiliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae'n cynnwys blaenoriaethau addas ar gyfer gwella. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau yn cynnwys amserlen gweithredu glir, cyfrifoldebau staff, a gofynion cyllidol addas. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn gyson ac yn nodi camau gweithredu pellach yn ôl yr angen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau cadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at godi safonau a chefnogi lles llawer o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ac yn ymdrechu'n galed i'w cynnwys yn addysg eu plant. Er enghraifft, mae'n cynnig gweithdai llythrennedd a rhifedd i rieni ac yn rhoi cyfle rheolaidd iddynt leisio eu barn trwy holiaduron a chyfarfodydd cyson.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol iawn o gyfryngau cymdeithasol a'u gwefan er mwyn rhannu gwybodaeth a dathlu llwyddiannau'r ysgol. Mae'r mentrau hyn yn sicrhau bod gan randdeiliaid ddealltwriaeth dda iawn o waith yr ysgol a sut i gefnogi addysg y disgyblion.

Mae sefydlu partneriaeth werthfawr gyda chlwstwr o ysgolion cynradd er mwyn datblygu deunyddiau llythrennedd ar gyfer llechi cyfrifiadurol, wedi cael effaith arwyddocaol ar fedrau darllen Cymraeg y disgyblion hŷn. Mae'r deunyddiau hyn, a ddatblygwyd yn dilyn gweithdai gydag awdures Gymraeg, bellach yn cael eu defnyddio gan ysgolion ledled Cymru ac maent ar gael ar y farchnad fyd-eang.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod ddefnyddiol o wasanaethau ac asiantaethau cymorth mewn perthynas â lles disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol iawn o wasanaeth y seicoleg addysg yn ogystal ag arbenigwyr iaith a lleferydd yr awdurdod lleol. Mae'r cysylltiadau â'r asiantaethau allanol hyn yn cynorthwyo'r ysgol yn llwyddiannus i gwrdd ag anghenion disgyblion sydd angen ymyrraeth benodol. Mae perthynas fuddiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r uned anghenion dwys sydd ar dir yr ysgol. Mae nifer y disgyblion sy'n elwa wrth i'r ysgol a'r uned rannu adnoddau ac arbenigedd staff yn sylweddol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles a llafar y disgyblion. Mae cysylltiadau â'r heddlu yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion am ddiogelwch ar y wê, perygl dieithriaid a bwlio yn benodol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda chlwstwr o ysgolion cynradd i rannu arfer dda ar brosiectau i godi safonau llythrennedd a rhifedd ac i olrhain cynnydd disgyblion. Mae gwaith cymedroli effeithiol yn digwydd, yn ogystal â rhannu profiadau, er mwyn datblygu staff a chynorthwywyr. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mae hyn wedi grymuso'r gwaith asesu yn effeithiol.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau pontio yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer addas o staff cymwysedig sy'n darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r pennaeth wedi lleoli staff yn effeithiol gan ystyried eu cryfderau. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd athrawon i addysgu cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r cymorthyddion sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at brofiadau disgyblion a darparu cefnogaeth gadarn i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chymorthyddion. Mae'r amcanion pwrpasol a chlir yn cyd-fynd â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol yn effeithiol. Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae staff yn defnyddio'r amser yn effeithiol i gynllunio'n bwrpasol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda nifer o ysgolion eraill. Mae'r athrawon yn rhan o gymuned ddysgu lwyddiannus er mwyn datblygu cynlluniau dysgu effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod medrau llythrennedd a rhifedd wedi eu hymgorffori'n gadarn yng ngwaith y disgyblion. O ganlyniad, mae medrau llawer o ddisgyblion wedi gwella ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r Grant Amddifadedd Disgyblion wrth sicrhau mynediad llawn i bob disgybl i holl weithgareddau'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r is-bwyllgor cyllid yn monitro'r cyllid yn ofalus. O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612125 - Ysgol Cymerau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 331 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 44 | 55 | 44 | 37 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 84.1 | 87.3 | 84.1 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 55 | 44 | 37 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.2 | 89.1 | 86.4 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.8 | 10.9 | 27.3 | 37.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 55 | 44 | 37 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.2 | 90.9 | 86.4 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 13.6 | 10.9 | 13.6 | 37.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 44 | 55 | 44 | 37 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.6 | 96.4 | 86.4 | 94.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 29.5 | 20.0 | 56.8 | 70.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612125 - Ysgol Cymerau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 331 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 45 | 36 | 38 | 41 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 82.2 | 80.6 | 86.8 | 90.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 36 | 38 | 41 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.4 | 80.6 | 84.2 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.1 | 22.2 | 26.3 | 56.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 36 | 38 | 41 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.4 | 80.6 | 86.8 | 95.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 24.4 | 22.2 | 31.6 | 39.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 36 | 38 | 41 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 80.6 | 89.5 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 51.1 | 33.3 | 34.2 | 39.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 45 | 36 | 38 | 41 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 80.6 | 92.1 | 95.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 31.1 | 25.0 | 26.3 | 63.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 102 | 102<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 102 | 101<br>99%<br>92% | 1<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 102 | 99<br>97%<br>97% | 3<br>3%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 102 | 102<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 102 | 100<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 102 | 101<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 102 | 102<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 101 | 99<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 101 | 95<br>94%<br>91% | 6<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 102 | 97<br>95%<br>95% | 5<br>5%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 102 | 67<br>66%<br>77% | 35<br>34%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 102 | 73<br>72%<br>84% | 29<br>28%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 36 | 27 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 36 | 30 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 35 | 27 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 36 | 26 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 72% | 22% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 32 | 18 | 13 | 1 | 0 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 56% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 36 | 25 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 25 | 8 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 36 | 23 | 7 | 6 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 64% | 19% | 17% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 20 | 10 | 1 | 0 | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 32% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 35 | 22 | 10 | 3 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 63% | 29% | 9% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 36 | 24 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 30 | 20 | 9 | 1 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 67% | 30% | 3% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 35 | 23 | 10 | 2 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 66% | 29% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 36 | 27 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 20 | 10 | 2 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 34 | 21 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 30 | 20 | 7 | 1 | 2 | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 67% | 23% | 3% | 7% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 35 | 22 | 9 | 4 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 26% | 11% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 34 | 25 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Tîm |
| Llinos Mary Jones | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhys Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.